# Y Pwyllgor Darlledu

## BCC(3)-08-08 (p.1)

### Pwyllgor Darlledu - Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Tystiolaeth Ymddiriedolaeth y BBC

### 1. Diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd y papur hwn yn pennu'r cyd-destun ar gyfer y Pwyllgor cyn y gwrandawiad llafar sydd i'w gynnal ar 16 Mehefin. Mae'r papur yn pennu agenda cyfredol Ymddiriedolaeth y BBC mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi cynnwys deunydd cefndir i helpu'r Pwyllgor ddeall cylch gwaith yr Ymddiriedolaeth a'r gwahaniaeth rhwng gwaith yr Ymddiriedolaeth a gwaith Gweithgor y BBC. Mae Gweithgor y BBC yn bwriadu cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar wahân i'r Pwyllgor.

### 2. Gwaith yr Ymddiriedolaeth

Daeth y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb newydd i rym ym mis Ionawr 2007 ac roedd hwn yn arwyddo rhai newidiadau a sialensiau sylweddol i'r BBC.

Yn gyntaf cydnabu'r Siarter cyfraniad y BBC i'r Deyrnas Gyfunol drwy osod chwech diben cyhoeddus newydd y byddai'n rhaid iddo gyflawni drwy'r gwybodaeth, addysg ac adloniant mae'n darparu. Yn ail, rhoddwyd strwythur llywodraethu cwbl newydd i'r BBC gyda dau fwrdd gwahanol i geisio darparu'r cylch gwaith hwn; Gweithrediaeth y BBC yn gyfrifol am reoli gweithgarwch gwasanaethau'r BBC, ac Ymddirieodlaeth y BBC fel corff sofran y BBC yn gyfrifol am ei gyfeiriad strategol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio er lles y cyhoedd. Yr ydym yn gwrando ar rychwant eang o leisiau, gan geisio deall pob barn a disgwyliad er mwyn hysbysu ein penderfyniadau. Yr ydym yn bodoli er mwyn sicrhau bod y BBC yn annibynnol, yn ddyfeisgar ac yn effeithlon; yn rym positif, creadigol ac economaidd yn y DU, ac er mwyn y DU yn ryngwladol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn bodoli er mwyn amddiffyn y BBC rhag dylanwad gormodol o unrhyw gyfeiriad, ac i gadw'r BBC yn fodern ac yn berthnasol wrth i dechnoleg a chymdeithas newid. Mae rhaid i ni brofi, herio a chefnogi y rheolwyr i ddarparu yr ansawdd uchaf a'r effeithlonrwydd mwyaf i holl dalwyr ffi'r drwydded o'r cymunedau lluosog ac amrywiol ar draws y DU. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd i ystyriaeth effaith posib BBC ar y farchnad er mwyn sicrhau nad yw'n mygu dyfeisgarwch a menter o fannau eraill.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu'r gweithdrefnau agored a thryloyw y mae eu hangen arni i gyflawni ei dyletswyddau o dan y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb. Ym mis Gorffennaf byddwn yn adrodd yn llawn fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar flwyddyn gyntaf yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi mynd i'r afael â sawl mater o sylwedd; gosod cyfeiriad strategol i'r BBC dros y chwe blynedd nesaf yn dilyn setliad ffi'r drwydded; gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i unioni rhai o'r methiannau safonau golygyddol difrifol; cynnal profion gwerth cyhoeddus cyn caniatáu gwasanaethau newydd megis BBC iPlayer, teledu diffiniad uchel a'r gwasanaeth digidol Gaeleg newydd; gwella hygyrchedd gwasanaethau'r BBC ar draws y DU drwy ganiatáu Freesat.

Rydym wedi anelu at roi cynulleidfaoedd wrth galon yr hyn rydym wedi ei wneud yn holl waith yr Ymddiriedolaeth. Felly, er enghraifft, yr oeddem yn dymuno sicrhau ein bod ni yn cael y darlun gorau posib o'r hyn yr oedd y cyhoedd yn ei feddwl ac yn ei ddisgwyl cyn cwblhau y Goruchwylion Pwrpas sydd yn rhoi cyfeiriad strategol i Weithrediaeth y BBC. Llwyddom i wneud hyn drwy ymgynghoriadau agored ac ymchwil eang. Drwy'n gwaith ar werth am arian, yr ydym yn ceisio sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau am bob un bunt o'u ffi trwydded.

Yn ganolog i waith yr Ymddiriedolaeth mae cynorthwyo'r BBC i ddarparu ansawdd a hynodrwydd, effeithlonrwydd a gwerth i holl dalwyr ffi'r drwydded. Mynnom ni bod y rheolwyr yn ymateb i'r prif amcanion hyn yn y cynllun strategol a buddsoddi chwe blynedd. Mae ein cynllun gwaith ar gyfer 2008/09 yn adeiladu ar y gofynion hyn a bydd yn ein cynorthwyo i sicrhau fod y BBC yn parhau i ffocysu ar ddarparu.

Wrth edrych ymlaen byddwn yn canolbwyntio ar dri phrif dyletswydd yr Ymddiriedolaeth; stiwardiaeth ffi'r drwydded ac adnoddau eraill; cynnal lles y cyhoedd yn y BBC a hyrwyddo'r pwrpasau cyhoeddus yn effeithiol.

Tra fod ein gwaith wedi ei gydlynu efo buddiannau'r cynulleidfaoedd ar draws y DU, yr ydym wedi tanlinellu yn yr adran dilynol peth o'r gwaith mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried sydd yn arbennig o berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

### 3. Y modd y bydd cynulleidfaoedd yng Nghymru yn elwa o agenda Ymddiriedolaeth y BBC

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dod â ffocws o'r newydd ar anghenion a blaenoriaethau cynulleidfaoedd a oedd yn llai amlwg o dan drefniadau llywodraethu blaenorol. Sefydlwyd strwythurau a phrosesu ffurfiol i sicrhau bod barnau cynulleidfaoedd ar draws y DU yn cael eu hystyried wrth i'r Ymddiriedolaeth bennu'i hagenda ac wrth iddi ddwyn gweithrediaeth y BBC i gyfrif am ei berfformiad. Mae

gwybodaeth fanylach am yr Ymddiriedolaeth a'r strwythurau a'r prosesau hyn wedi'i nodi ar gyfer y Pwyllgor yn Adran 3 y papur hwn.

Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi chwarae rhan lawn i gyfrannu at yr agenda honno, gan sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth glir o ddiddordebau cynulleidfaoedd Cymru.

Mae ymchwil yr Ymddiriedolaeth a gomisiynwyd yn 2007 i gyfrannu at ei hymgynghoriad ar Gylch Gwaith Diben ac i bennu meincnodau ar gyfer monitro yn y dyfodol, yn dangos bod dirywiad nodedig mewn gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o'r BBC wrth fynd ymhellach o Lundain. Mae'r tabl isod yn dangos yn glir ar draws amrediad o gwestiynau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r BBC yn fwy na'u cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond yn llai na chynulleidfaoedd Lloegr.

### Cymeradwyaeth gyffredinol cynulleidfaoedd o'r BBC yn ôl Cenhedloedd

| | DU | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymeradwyaeth** | | | | | |
| Uchel (8-10) | **34** | 35 | 26 | 34 | 28 |
| Isel (1-4) | **15** | 14 | 25 | 14 | 21 |
| **Byddent yn colli'r BBC** | | | | | |
| Cytuno | **70** | 71 | 63 | 68 | 58 |
| Anghytuno | **18** | 17 | 23 | 17 | 29 |
| **Perthynas â'r BBC** | | | | | |
| Rhanddeiliad | **26** | 26 | 22 | 28 | 31 |
| Defnyddiwr | **45** | 46 | 43 | 36 | 25 |
| 'Amherthnasol' | **24** | 23 | 31 | 29 | 37 |
| **Gwerth am Arian** | | | | | |
| Da | **56** | 57 | 49 | 50 | 41 |
| Gwael | **42** | 41 | 50 | 49 | 56 |
| **Bodlonrwydd â'r BBC** | | | | | |
| Hapus iawn | **20** | 20 | 19 | 23 | 17 |
| Hapus ar y cyfan | **59** | 60 | 52 | 51 | 53 |
| Yn ei newid yn sylweddol | **18** | 16 | 26 | 23 | 25 |

Mae'r ffigurau yn ganrannau oedolion 15+ o fewn Gwlad benodol

Mae'r canfyddiadau hyn wedi tanategu amrywiaeth o fentrau a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth i unioni'r cydbwysedd a sicrhau bod y BBC yn cael ei werthfawrogi lawn mor uchel yn y Cenhedloedd datganoledig ag yn Lloegr.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod, drwy ei hymgysylltiad rheolaidd â Chyngor Cynulleidfa Cymru, mai'r materion sydd o'r pwys mwyaf i gynulleidfaoedd yng Nghymru yw:

Diogelu cynnyrch BBC Cymru Wales a werthfawrogir yn fawr

Adlewyrchu datganoli'n briodol yn y DU

Cynrychiolaeth ddigonol i Gymru yng nghynnyrch rhwydwaith y BBC

Mynediad cyffredinol i wasanaethau digidol y BBC

Cyflawni cyfrifoldebau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y Gymraeg

## Diogelu cynnyrch BBC Cymru Wales a werthfawrogir yn fawr

Cred Cyngor Cynulleidfa Cymru y byddai'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd BBC Wales a'i le ym mywyd Cymru. Mae'n cyflwyno gwerth cyhoeddus aruthrol drwy'r ffyrdd y mae'n cyflawni ei gylch gwaith Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei ystyr ehangaf. Yr hyn sy'n cael ei amlygu yn bwerus iawn yng nghyfarfodydd y Cyngor â phob sector o'r gynulleidfa amrywiol yng Nghymru yw ymdeimlad cryf iawn o berchenogaeth o BBC Cymru Wales. Mae ei gynnwys - ar draws y teledu, radio ac ar-lein yn cael ei werthfawrogi'n fawr, ac mae pobl yn ymddiried yn fawr ynddo hefyd.

Er bod setliad ffi trwydded is na'r disgwyl wedi creu pwysau ariannol ar draws y BBC, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ofalus i gymeradwyo cynllun strategol y BBC ar gyfer y 6 blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod BBC Cymru Wales yn parhau i gael cyllid digonol.

## Adlewyrchu datganoli'n briodol yn y DU

Mae hwn wedi bod yn fater o bwys i gynulleidfaoedd ym mhob un o'r Cenhedloedd datganoledig. Fel rhan o'i fonitro parhaus o amhleidioldeb cynnyrch y BBC, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o newyddion rhwydwaith y BBC a'i ymdriniaeth ffeithiol o bedair gwlad y Deyrnas Unedig. Hwn yw'r adolygiad cyntaf o amhleidioldeb i'w gomisiynu gan yr Ymddiriedolaeth ers ei sefydlu. Derbyniwyd adroddiad yr adolygiad a gomisiynwyd gan yr Athro Anthony King gan yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried pa gamau sy'n angenrheidiol i'w cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godir yn yr adroddiad ac mae'n disgwyl cyhoeddi ei hymateb yn y dyfodol agos.

## Cynrychiolaeth digonol i Gymru yng nghynnyrch rhwydwaith y BBC

Yn gyffredin â cenhedloedd datganoledig eraill, mae Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi mynegi pryder y dylai Cymru gael ei chynrychioli'n ddigonol yng nghynnyrch teledu rhwydwaith y BBC. Adleisir y pryder gan y rheiny sy'n ymwneud ag economïau'r cenhedloedd datganoledig gan fod cynrychiolaeth ddigonol yn esgor ar fuddion i gynulleidfaoedd ac economïau.

Er bod llwyddiannau diweddar nodedig fel Dr Who a Torchwood wedi cynyddu cyfran cynnwys rhwydwaith y BBC sy'n deillio o Gymru, mae mwy i'w wneud eto. Yn dilyn adolygiad o gyflenwad rhwydwaith gan Weithrediaeth y BBC, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi targedau ymestynol newydd a ddylai arwain at gynnydd cyfunol sylweddol mewn cynhyrchu teledu rhwydwaith ar draws rhanbarthau Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Fel cam cyntaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu newid y mesur y mae'n ei ddefnyddio i osod targedau ar gyfer y BBC yn y maes hwn. Gosodwyd targedau blaenorol y BBC trwy gyfeirio at ei ddiffiniad ei hun o'r hyn sy'n cyfrif fel cynhyrchu rhwydwaith. I'r dyfodol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu defnyddio'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio gan Ofcom ar gyfer gweddill diwydiant darlledu'r DU. Nid mater o semanteg yw hwn. Mae diffiniad Ofcom yn gofyn mwy na diffiniad y BBC, ac mae ei ddefnyddio yn y dyfodol yn gryn ymestyniad.

I'r DU gyfan, a chan adlewyrchu'r cynlluniau i symud i Salford, mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn disgwyl i'r BBC sicrhau y bydd 50 y cant o gynnyrch rhwydwaith yn cael ei wneud y tu allan i Lundain o dan ddiffiniad Ofcom erbyn 2016.

O fewn hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu targed y BBC i ffynonellu cynnyrch rhwydwaith o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Yn ystod proses adnewyddu'r Siarter, ymrwymodd y BBC i ffynonellu o leiaf 17 y cant o'i gynnyrch rhwydwaith o'r tair gwlad o dan ei ddiffiniad ei hun. Tra'n cynnal y ffigur 17 y cant, mae'r Ymddiriedolaeth yn awr wedi penderfynu ei gymhwyso i ddiffiniad mwy ymestynnol Ofcom, a'i gwneud yn ofynnol i'r BBC fodloni'r targed neu ragori arno nid hwyrach na diwedd y Siarter bresennol yn 2016. Mae hefyd yn gosod targed canolradd i'r BBC i sicrhau cyflawniad 12 y cant o dan ddiffiniad Ofcom erbyn 2010 fan hwyraf.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi gwneud ymrwymiad y dylai'r BBC ffynonellu cyfran o raglenni rhwydwaith o'r Alban, cyfwerth â chyfran yr Alban o boblogaeth y DU. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi herio'r BBC i gyflawni dynesiad cyffelyb mewn perthynas â Chymru a Gogledd Iwerddon. Ni fydd targedau ffurfiol ar gyfer cenhedloedd unigol. Serch hynny, ar sail adroddiadau rheolaidd gan y BBC, bydd yr Ymddiriedolaeth yn monitro'r darpariaeth o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ofalus er mwyn sicrhau bod y BBC yn helpu i adeiladu cynnyrch rhwydwaith cryf a chynaliadwy ym mhob un o'r tair gwlad ac yn rhanbarthau Lloegr o fewn yr amserlenni a nodwyd.

## Mynediad cyffredinol i wasanaethau digidol y BBC

Er mwyn i'r BBC gyflawni'i gylch gwaith o ran cyrhaeddiad, mae angen iddo fod yn hygyrch i gynulleidfaoedd ar draws y DU gyfan. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod mynediad cyfyngedig i signalau radio FM a hefyd i wasanaethau teledu a radio digidol, trwy DAB a Theledu Daearol Digidol (Freeview) yn faterion sylweddol yng Nghymru. Cymhlethir y mater yng Nghymru gan fod mynediad i fand eang yn llai cyffredin nag mewn rhannau eraill o'r DU.

Bwriad rhai o benderfyniadau cynharaf yr Ymddiriedolaeth - ar Freesat ac ar yr iPlayer, oedd mynd i'r afael â'r cyfryw bryderon, yn rhannol o leiaf. Cyflwynodd yr iPlayer fynediad di-dâl ar alwad i gynnwys y BBC, a dyma, i rai, brofiad cyntaf o wasanaethau digidol y BBC. Bwriad cyfranogiad y BBC yn y fenter Freesat ar y cyd ag ITV, a lansiwyd ym mis Mai 2008, yw mynd i'r afael ag anghenion y talwyr ffi'r drwydded hynny sydd eisiau mynediad heb danysgrifiad i wasanaethau digidol y BBC nad ydynt yn gallu derbyn signal Freeview. Mae ystod lawn gwasanaethau digidol y BBC - y teledu (gan gynnwys BBC HD) a'r radio, ar gael heb danysgrifio erbyn hyn ar hyd a lled Cymru, drwy Freesat. Mae Sky hefyd yn cynnig opsiwn mynediad heb danysgrifiad yn ychwanegol at ei wasanaethau tanysgrifio.

Daeth y Cyngor Cynulleidfa â diffyg argaeledd DAB a materion eraill yn ymwneud â derbyniad radio yng Nghymru i sylw'r Ymddiriedolaeth eto yn ei Ddiwrnod Cynghorau Cynulleidfa blynyddol ym mis Ebrill eleni. Er nad oes unrhyw 'atebion sydyn' i

broblemau felly, mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod hwn yn parhau’n fater pwysig a bod angen gwneud mwy i sicrhau mynediad cyffredin i wasanaethau radio’r BBC yng Nghymru.

### Cyflawni cyfrifoldebau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y Gymraeg

Mae’r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn disgwyl i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gael ei ddarparu yn y Gymraeg a’r Saesneg, ac mae’n hen egwyddor bod cyfrifoldebau darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn mynnu ei fod yn darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd yng Nghymru yn y ddwy iaith.

Mae cynulleidfaoedd yn mynnu bod darpariaeth gynhwysfawr ar draws y teledu, radio ac ar-lein. Mae BBC Cymru Wales yn mabwysiadu ymagwedd fwyfwy holistaidd tuag at ei ddarpariaeth yn y ddwy iaith. Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi croesawu’r modd y mae BBC Cymru yn datblygu’i ddarpariaeth i gynulleidfaoedd yn Gymraeg mewn ffordd sy’n cysylltu Radio Cymru, bbc.co.uk/Cymru a’r rhaglenni deng awr yr wythnos y mae’r BBC yn eu cyflenwi ar hyn o bryd i S4C, gyda ffi’r drwydded yn talu amdanynt. Un o’r prif enghreifftiau o hyn yw’r ddarpariaeth cynnyrch ychwanegol i bobl ifanc mewn cysylltiad â’r gwasanaeth ieuenctid C2 ar Radio Cymru ar ei wefan. Enghraifft arall yw’r ffordd y mae’r ddarpariaeth ar y we ar gyfer y rhaglen deledu i bobl ifanc, Mosgito, yn rhan annatod o’r arlwy. Mae’r Ymddiriedolaeth yn croesawu’r ymagwedd hon, ac mae o’r farn ei bod yn gwella’r ddarpariaeth ac yn darparu ar gyfer mynediad hawdd i gynulleidfaoedd Cymraeg ac yn creu dewis na fyddai ar gael fel arall i’r cynulleidfaoedd hyn. Cafodd argaeledd parhaus newyddion a chynnwys lleol ar bbc.co.uk mewn perthynas â Chymru yn Gymraeg ac yn Saesneg ei groesawu gan gynulleidfaoedd yn adolygiad diweddar yr Ymddiriedolaeth o’r gwasanaeth hwn.

Mae’r Ymddiriedolaeth wedi bod yn hapus â gweithrediad y bartneriaeth strategol 3 blynedd newydd rhwng y BBC ac S4C a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2007.

Mae’r bartneriaeth yn amlinellu’r ffordd y mae’r BBC yn cyflawni’i ddyletswydd statudol i ddarparu lleiafswm o 10 awr yr wythnos o raglenni i’w darlledu ar wasanaethau cyhoeddus S4C. Mae’r cynnwys hwn yn raglenni Cymraeg gwreiddiol darllediad cyntaf (ystyr "gwreiddiol” yw cynnwys newydd o’r DU ac nid aildarllediadau na chaffaeliadau). Ar hyn o bryd mae’r BBC yn darparu’r cyfan o gynnyrch newyddion rhyngwladol, y DU a chenedlaethol S4C, a rhywfaint o raglenni materion cyfoes a drama, yn ogystal â chwaraeon a rhaglenni eraill. Bydd gweithrediad y trefniant hwn yn destun adolygiad llawn gan yr Ymddiriedolaeth ac Awdurdod S4C ar y cyd yn ystod 2009.

## 4. Cefndir i Ymddiriedolaeth y BBC

Sefydlwyd y BBC gan Siarter Brenhinol. Er 1923, mae’r Siarter wedi bod yn destun adolygiad o bryd i’w gilydd, ac er y 1950au, gwnaed hyn oddeutu unwaith bob deng mlynedd. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth o dan y Siarter a’r Cytundeb newydd a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2007 ac a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2006. Mae ei rôl a’i chyfansoddiad yn wahanol iawn i rai’r Bwrdd Llywodraethwyr a ddisodlodd.

Pwrpas Ymddiriedolaeth y BBC yw gweithio ar ran talwyr ffi'r drwydded, gan sicrhau bod y BBC yn darparu cynnyrch o ansawdd uchel a gwerth da am arian ar gyfer holl ddinasyddion y DU, ac mae'n amddiffyn annibyniaeth y BBC. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Ymddiriedolwyr gadw cysylltiad agos gyda thalwyr ffi'r drwydded, gan fod yn ymwybodol o a deall eu disgwyliadau gan y BBC. Gwnânt hyn drwy ymchwil, cysylltu'n uniongyrchol â’r cyhoedd a thrwy waith Cynghorau Cynulleidfa y BBC. Mae creu’r Ymddiriedolaeth yn nodi chwyldro yn y modd y mae’r BBC yn cael ei lywodraethu. Mae marchnad cyfryngau heddiw’n un gymhleth, ac mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ffordd newydd a gwell o sicrhau bod y BBC yn cyflawni’i gylch gwaith cyhoeddus.

Caiff aelodau Ymddiriedolaeth yn BBC eu penodi gan y Frenhines ar gyngor gweinidogion. Dilynodd penodi’r Ymddiriedolwyr broses apwyntiadau cyhoeddus sy’n cael ei rheoleiddio gan Swyddfa’r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus.

### 4.1 Gofynion y Siarter a’r Cytundeb

Pennodd y Siarter a’r Cytundeb chwe Diben Cyhoeddus ar gyfer y BBC:

cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

hyrwyddo addysg a dysgu

ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

cynrychioli’r DU, ei cenhedloedd, ei rhanbarthau a’i chymunedau

dod â’r DU i’r byd a’r byd i’r DU

wrth hyrwyddo’i ddibenion eraill, helpu i gyflwyno i’r cyhoedd budd technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy’n dod i’r amlwg, ac, yn ychwanegol, cymryd rôl arwain yn y newid i deledu digidol.

O dan delerau’r Siarter a’r Cytundeb, hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus hyn ddylai prif weithgareddau’r BBC fod, a hynny trwy gynnyrch sy’n cynnwys gwybodaeth, addysg ac adloniant.

Mae’r Siarter a'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaeth y BBC gyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau. Ymhlith y rhain mae:

Cynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded ac asesu eu safbwyntiau yn ofalus

Cynnal annibyniaeth y BBC

Stiwardio arian cyhoeddus yn drwyadl

Ystyried effaith gystadleuol y BBC ar y farchnad ehangach yn briodol

Sicrhau bod y BBC yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw

Sicrhau y caiff Dibenion Cyhoeddus y BBC eu hyrwyddo'n effeithiol

Gosod y fframwaith ar gyfer ymdrin â chwynion a gwrando apeliadau lle y bo'n briodol

Yn ogystal, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth y BBC:

Bennu'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y BBC

Cymeradwyo strategaeth lefel uchel a chyllidebau

Asesu perfformiad Bwrdd Gweithredol y BBC a'i ddwyn i gyfrif am ei berfformiad.

Er mwyn sicrhau bod Ymddiriedolaeth y BBC yn cyflawni'i rhwymedigaethau, mae'r Siarter yn pennu fframwaith rheoleiddio newydd, a fydd yn dangos annibyniaeth ac effeithiolrwydd y system lywodraethu newydd hon. Elfennau allweddol y fframwaith hwn yw:

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn pennu Cylchoedd Gwaith Diben a Thrwyddedau Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC

Mae gofyniad ar yr Ymddiriedolaeth i bennu nifer o godau a pholisïau yn ymwneud yn benodol â materion masnachu teg.

Mae gofyniad ar yr Ymddiriedolaeth i nodi'r manylion am y modd y bydd hi a'r Bwrdd Gweithredol yn rhyngweithio trwy gyfres o brotocolau.

### 4.2 Perthynas gyda'r Bwrdd Gweithredol

#### Strategaeth

Ymddiriedolaeth y BBC sy'n pennu'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y BBC. Mae'n cyhoeddi Cylchoedd Gwaith Diben sy'n dangos y modd y bydd y BBC yn hyrwyddo'u chwe diben cyhoeddus. Mae'r cylchoedd gwaith diben yn diffinio blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ac yn esbonio'r modd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn barnu perfformiad yn eu herbyn.

#### Trwyddedau Gwasanaeth

Ar sail y cylchoedd gwaith diben, mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cyhoeddi Trwyddedau Gwasanaeth. Mae'r rhain yn pennu ar gyfer pob gwasanaeth y BBC ei gylch gwaith, cyllideb pennawd, a'r modd y disgwylir iddo gyfrannu at gyflawni Chwe Diben Cyhoeddus y BBC.

Cyn bod Ymddiriedolaeth y BBC yn pennu'r Cylchoedd Gwaith Diben neu'n cyhoeddi'r Trwyddedau Gwasanaeth newydd, bydd yn ymgynghori'n gyhoeddus. Ar ôl eu mabwysiadu, mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro perfformiad yn erbyn cylchoedd gwaith diben a thrwyddedau gwasanaeth, a'r cydymffurfio â hwy. Os yw'r Bwrdd Gweithredol eisiau sefydlu gwasanaethau newydd, neu eisiau gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau presennol, mae'n rhaid iddo ofyn am gydsyniad Ymddiriedolaeth y BBC yn gyntaf.

#### Datganiadau o Bolisi Rhaglenni

Yn gyffredin â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill y DU, mae'r BBC yn cyhoeddi Datganiadau o Bolisi Rhaglenni bob blwyddyn. Caiff y rhain eu paratoi gan reolwyr y BBC ac maent yn nodi, yn fras, gynlluniau'r BBC ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus DU am y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n llawn at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ac yn cymeradwyo'r datganiadau, ac yn asesu adroddiad y rheolwyr o berfformiad yn erbyn y blaenoriaethau a ddisgrifir ynddynt. Adroddir ar berfformiad yn yr Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn.

#### Safonau golygyddol

Y Bwrdd Gweithredol sy'n llunio canllawiau golygyddol y BBC. Mae'r canllawiau ac unrhyw ddiwygiadau arfaethedig iddynt yn amodol ar gymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r canllawiau yn pennu'r safonau y dylai cynnwys y BBC eu bodloni, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn eu defnyddio i fonitro perfformiad golygyddol y BBC.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn archwilio rhaglenni cyn darlledu. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol yw prif olygydd y BBC ac ef yn y pen draw sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau golygyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cwynion ar apêl ar ôl i broses gwynion y BBC gael ei disbyddu.

#### Cyllid

Mae rôl ariannol Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnwys:

Cymeradwyo strategaeth lefel uchel a chyllidebau'r BBC

Comisiynu ymchwiliadau gwerth am arian rheolaidd i feysydd penodol o weithgarwch y BBC

Sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i bolisi masnachu teg

Sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi sylw priodol i risgiau gweithredu allweddol

### Rheoleiddio

Mae gan Ymddiriedolaeth y BBC swyddogaethau rheoleiddio pwysig ac mae'n dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am y BBC yn cydymffurfio â'r rheoliadau, yn ogystal â'r gyfraith gyffredinol.

### Gwasanaethau masnachol

Mae'r BBC yn gweithredu amrywiaeth o wasanaethau masnachol, ac mae'r elw o'r rhain yn cael ei roi yn ôl i dalwyr ffi'r drwydded trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus y DU. Yr Ymddiriedolaeth sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau hyn.

### Cwynion ac apeliadau

Ymddiriedolaeth y BBC sy'n pennu fframwaith Bwrdd Gweithredol y BBC ar gyfer ymdrin â chwynion. Lle bydd yn briodol, mae'r Ymddiriedolaeth yn gwrando apeliadau.

### Adroddiad blynyddol

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC. Mae'r adroddiad mewn dwy ran. Y gyntaf yw sylwadaeth yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad rheolwyr y BBC a gwybodaeth am weithgareddau'r Ymddiriedolaeth ei hun a'i chyfrifon blynyddol. Caiff yr ail ran ei pharatoi gan reolwyr y BBC ac mae'n adroddiad ar ei berfformiad yn erbyn meini prawf cytûn a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth, a chyfrifon archwiliedig y BBC.

### Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn penodi Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol, sef y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar hyn o bryd, sy'n brif swyddog gweithredol a phrif olygydd y BBC. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys nifer o gyfarwyddwyr anweithredol y mae eu penodiadau'n cael eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth.

### Bwrdd Gweithredol

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol, sy'n rheoli gweithrediadau'r BBC o ddydd i ddydd. Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys:

Cyflwyno gwasanaethau'r BBC yn unol â strategaethau'r Ymddiriedolaeth

Cyfarwyddo cynnyrch golygyddol a chreadigol y BBC

Rheolaeth weithredol o'r BBC

Cynnal rheolaeth ariannol weithredol y BBC er mwyn sicrhau gwerth am arian

Rhoi cyfrif i'r Ymddiriedolaeth am ei pherfformiad ei hun ac am berfformiad ei his-gwmnïau

### Tâl swyddogion gweithredol

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu tâl Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Mae hefyd yn cymeradwyo'r strategaeth ar gyfer talu aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, mae penderfyniadau unigol ynglŷn â thâl yn cael eu gwneud gan Bwyllgor Tâl y Bwrdd Gweithredol. Cyfarwyddwyr anweithredol yn unig sydd ar y pwyllgor hwn.

### 4.3 Perthnasoedd allweddol eraill

Mae gan Ymddiriedolaeth y BBC berthnasoedd ffurfiol gydag unigolion a sefydliadau gan gynnwys talwyr ffi'r drwydded, y llywodraeth, ac awdurdodau rheoleiddio.

### Talwyr ffi'r drwydded

Mae gan dalwyr unigol ffi'r drwydded lais pwerus. O dan y Siarter a'r Cytundeb mae gofyniad ar Ymddiriedolaeth y BBC i "ofyn yn weithredol am farn talwyr ffi'r drwydded, ac ymgysylltu â hwy". Mae dyletswydd gan yr Ymddiriedolaeth hefyd i ymgynghori â thalwyr ffi'r drwydded cyn, er enghraifft, mabwysiadu cylchoedd gwaith diben a thrwyddedau gwasanaeth, neu cyn cymeradwyo newidiadau sylweddol iddynt.

### Cynghorau Cynulleidfa

Cynrychiolir barnau talwyr ffi'r drwydded trwy rwydwaith o Gynghorau Cynulleidfa yn ogystal.

### Y Llywodraeth a'r Senedd

Mae annibyniaeth y BBC ar y llywodraeth yn cael ei gwarantu gan y Siarter a'r Cytundeb ac un o rolau allweddol yr Ymddiriedolaeth yw diogelu'r annibyniaeth honno. Mae gan Ymddiriedolaeth y BBC berthnasoedd â Senedd a llywodraeth y DU, yn enwedig yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae gan Ymddiriedolaeth y BBC berthynas â'r Senedd yn San Steffan, sy'n archwilio materion y BBC trwy ddadleuon ar loriau'r ddau Dŷ a thrwy wrandawiadau pwyllgorau dethol lle gellir dwyn aelodau'r Ymddiriedolaeth i gyfrif am berfformiad y BBC. Er bod darlledu'n parhau yn 'fater neilltuedig' yn y DU, mae'r Ymddiriedolaeth yn barod hefyd i gyfrif am ei gwaith a pherfformiad y BBC i'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

### Rheoleiddwyr

Mae gan Ymddiriedolaeth y BBC berthynas ffurfiol â rheoleiddwyr allweddol gan gynnwys Ofcom a'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT). Yn gyffredin â darlledwyr eraill y DU, mae'r BBC yn cael ei reoleiddio ar bolisi cystadleuaeth gan Ofcom, OFT, a'r Comisiwn Ewropeaidd.

### Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Rhaid i Ymddiriedolaeth y BBC sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Un o'r ffyrdd sydd ganddi o wneud hyn yw gweithio'n agos â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cytuno rhaglen waith sy'n cynnwys adolygiadau gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac asiantaethau allanol o feysydd penodol buddsoddi neu wariant.

### 4.4 Sut mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud ei gwaith

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau mwy o dryloywder yn y modd y mae'r BBC yn cynnal ei fusnes. Mae'n esbonio'i phenderfyniadau'n glir ac yn cyhoeddi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddylanwadu ar ei barnau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn annibynnol ar reolwyr y BBC ac unrhyw gorff allanol, gan ei gadael yn rhydd i gyflawni'i chyfrifoldeb clir i weithredu er budd holl dalwyr ffi'r drwydded yn unig.

Rhoddwyd prosesau newydd ar waith i helpu Ymddiriedolaeth y BBC i wneud ei gwaith. Fodd bynnag, mae'r newid mwyaf ym mhenderfyniad a brwdfrydedd yr Ymddiriedolaeth i ddeall yr hyn y mae talwyr ffi'r drwydded yn ei ddisgwyl gan eu BBC, ac adlewyrchu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth honno wrth wneud penderfyniadau allweddol er budd y cyhoedd. Am y tro cyntaf, mae gan y cyhoedd lais wrth bennu cyfeiriad strategol y BBC. Mae gwybodaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i dalwyr ffi'r drwydded i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaeth y BBC, boed trwy gyfarfodydd cyhoeddus, ymgynghoriadau ar-lein, rhaglenni ymchwil neu gyfleoedd i ffonio i mewn ar y radio.

Mae'r tair adran ganlynol yn nodi cefndir ychwanegol i weithgareddau'r Ymddiriedolaeth mewn tri maes a all fod o ddiddordeb penodol i Bwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol - y cylch gwaith diben yn ymwneud â cenhedloedd y DU, rôl y Cynghorau Cynulleidfa a gweithredu'r Prawf Gwerth Cyhoeddus.

### 4.5 Cylchoedd gwaith diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cyhoeddi Cylchoedd Gwaith Diben sy'n dangos y modd y bydd y BBC yn hyrwyddo'i chwe diben cyhoeddus. Mae'r cylchoedd gwaith diben yn diffinio blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ac yn esbonio'r modd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn barnu perfformiad yn eu herbyn. Fel rhan o'r broses, ymgynghorodd Ymddiriedolaeth y BBC yn gyhoeddus cyn cwblhau'r cylchoedd gwaith. Bydd yn eu hadolygu'n gyson, a bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal cyn i unrhyw newidiadau sylweddol ddigwydd.

Mae'r testunau ar gyfer y cylchoedd gwaith diben ar gynrychioli'r DU, ei cenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau ac ar gynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil wedi'u nodi yma:

### Cynrychioli'r DU, ei cenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

Gallwch ddibynnu ar y BBC i adlewyrchu'r cymunedau lu sy'n bodoli yn y DU. Gall y cymunedau hyn fod yn seiliedig ar ddaearyddiaeth, ar ffydd, ar iaith, neu ar ddiddordeb a rennir, fel chwaraeon. Gallwch ddisgwyl i'r BBC ysgogi dadl o fewn cymunedau'r DU a rhyngddynt, ac i annog pobl i fod yn rhan o'u cymunedau. Beth fydd y BBC yn ei wneud i gyflawni'r Diben hwn 1 Cynrychioli'r cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau gwahanol i weddill y DU. Ar draws amrediad ei gynnyrch rhwydwaith, dylai'r BBC bortreadu a dathlu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau ar draws y DU ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. 2 Darparu ar gyfer cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau gwahanol y DU. Dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth o gynnyrch, gan gynnwys cynnwys gwreiddiol, gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. 3 Dod â phobl ynghyd i rannu profiadau. Dylai'r BBC ddarlledu rhaglenni unigol sy'n dod ag amrywiaeth eang iawn o bobl ynghyd - er enghraifft, achlysuron swyddogol mawr, digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol pwysig ac adloniant o ansawdd uchel. 4 Annog diddordeb mewn, a thrafodaeth am gymunedau lleol. Dylai'r BBC ddarparu cynnyrch diddorol sy'n rhoi darlun cywir o'r cymunedau lu sydd yn y DU, ac sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth ac yn ysgogi trafodaeth am eu pryderon. Dylai'r BBC ddarparu fforymau lle gall y cymunedau hyn drafod ymhlith ei gilydd a gyda chymunedau eraill y DU. 5 Adlewyrchu'r credoau crefyddol gwahanol a chredoau eraill yn y DU. Dylai'r BBC gynnig cyfleoedd i bobl ddeall credoau pobl eraill, ac i archwilio'u credoau eu hunain yn feirniadol. 6 Darparu cynnyrch mewn ieithoedd lleiafrifol. Yn ei gynnyrch, dylai'r BBC gefnogi ieithoedd brodorol y DU lle bydd yn briodol. Gall hefyd ddarparu cynnyrch mewn ieithoedd eraill a ddefnyddir gan dalwyr ffi'r drwydded

mewn cyd-destunau priodol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Gallwch ymddiried yn y BBC i ddarparu rhaglenni newyddion, rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol o ansawdd uchel sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ac sy'n cefnogi dadlau am faterion pwysig a datblygiadau gwleidyddol mewn modd diddorol. Gallwch edrych at y BBC am gymorth i ddefnyddio a deall mathau gwahanol o gyfryngau. Beth fydd y BBC yn ei wneud i gyflawni'r Diben hwn 1 Darparu newyddiaduraeth annibynnol o'r safon uchaf. Dylai newyddiaduraeth y BBC fod yn annibynnol, yn gywir ac yn ddiduedd - gan ddarparu newyddion a materion cyfoes o berthnasedd, amrywiaeth a manylder y mae cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddynt. Dylai newyddiaduraeth y BBC gynnig amrediad a manylder dadansoddi nad ydynt ar gael yn eang gan ddarparwyr eraill yn y DU. 2 Ennyn diddordeb cynulleidfa eang mewn newyddion, materion cyfoes a materion amserol eraill. Dylai'r BBC ddarparu newyddion a materion cyfoes sy'n diddori ac yn dysgu pobl o bob cefndir, oed a lefelau gwybodaeth, gan eu galluogi i ymgysylltu â phrif faterion y dydd. 3 Annog sgwrsio a dadlau am newyddion, materion cyfoes a materion amserol. Dylai newyddion a materion cyfoes y BBC gyfrannu at sgwrsio a dadlau ymhlith ffrindiau, teulu a grwpiau ehangach drwy fforymau ar gyfer dadlau fel cyfleoedd i ffonio i mewn a thrafodaethau ar-lein. 4 Adeiladu dealltwriaeth fwy o'r broses seneddol a sefydliadau gwleidyddol sy'n llywodraethu'r DU. Dylai'r BBC helpu'i gynulleidfaoedd i ddeall sut y llywodraethir y DU ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol, rhanbarthol a lleol. 5 Galluogi cynulleidfaoedd i allu defnyddio, deall a rhyngweithio â mathau gwahanol o gyfryngau. Dylai'r BBC helpu pobl i ddod yn 'llythrennog yn y cyfryngau' - gan roi'r hyder iddynt wneud defnydd llawn o bob cyfrwng, gan gynnwys technolegau gwybodaeth. Bydd y BBC yn helpu'i gynulleidfaoedd i ymgysylltu'n feirniadol â chyfryngau - i ganfod yr hyn maent yn chwilio amdano o ffynonellau dibynadwy, i ddeall yr hyn mae'n sôn amdano, i ffurfio barn amdano, a lle bo angen, i ymateb iddo a rhyngweithio ag ef.

### 4.6 Cynghorau Cynulleidfa

Mae rhwymedigaeth ar Ymddiriedolaeth y BBC o dan y Siarter Frenhinol i ymgynghori ar lawer o agweddau ar ei gwaith gyda Chynghorau Cynulleidfa yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, ac mae'n gweithio'n agos iawn â hwy ar amrywiaeth o faterion. Mae'r cynghorau hyn yn chwarae rhan allweddol yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion, diddordebau a phryderon cynulleidfaoedd. Yr aelod o Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y wlad honno sy'n cadeirio pob cyngor. Rôl y cynghorau yw dod ag amrywiaeth eang o safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded i ddylanwadu ar waith yr Ymddiriedolaeth.

### Cysylltiadau cymunedol

Mae gan y cynghorau gysylltiadau â llawer o gymunedau gwahanol yn eu cenhedloedd, ac maent yn trefnu rhaglenni allymestyn a gweithgareddau eraill sy'n eu galluogi i gynghori'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r BBC yn hyrwyddo'i Ddibenion Cyhoeddus, a pha mor dda y mae'n gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded mewn rhannau gwahanol o'r DU.

### Rôl ymgynghorol

Ymhlith y materion y mae gan y cynghorau'r hawl i gael mynegi barn arnynt o dan y Siarter a'r Cytundeb, y mae adolygiadau o Drwyddedau Gwasanaeth ac unrhyw gynnig sy'n gofyn am brawf gwerth cyhoeddus.

### Aelodaeth

Mae gan y cynghorau ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon 12 aelod yr un, gan gynnwys y Cadeirydd. Caiff aelodau'r cynghorau eu hapwyntio gan yr Ymddiriedolaeth yn unol ag arfer gorau ar gyfer penodiadau gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y DU, bod ganddynt gysylltiadau â chymunedau, a'u bod yn gallu llunio barn ar y modd y dylid hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

### Cyngor Cynulleidfa Cymru

Fe wnaeth Cyngor Cynulleidfa Cymru ddisodli Cyngor Darlledu Cymru ym mis Ionawr 2007, gan barhau â'i waith ond o fewn y fframwaith newydd a sefydlwyd o dan Siarter Frenhinol newydd y BBC.

Mae Cyngor Cynulleidfa Cymru yn gweithredu fel y prif gynghorydd i Ymddiriedolaeth y BBC ar faterion sy'n effeithio ar Gymru. Ei gadeirydd yw Janet Lewis-Jones, Ymddiriedolwr y BBC dros Gymru. Penodir aelodau gan yr Ymddiriedolaeth ar gyngor panel sy'n cynnwys yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol a dau aelod annibynnol. Mae'r penodiadau'n wirfoddol (di-dâl) a hyd at 5 mlynedd yw cyfnod y penodiad.

Mae'r Cyngor yn casglu barnau'r gynulleidfa ar draws Cymru, yn cyfarfod ag uwch reolwyr BBC Cymru Wales bob mis i drafod materion amrywiol mewn perthynas â'r rhaglenni a'i wasanaethau, ac mae'n adrodd i Ymddiriedolaeth y BBC ar farnau cynulleidfaoedd a pherfformiad gwasanaethau'r BBC yng Nghymru. Mae aelodau hefyd yn trafod rhaglenni a gwasanaethau unigol, a gall fynd ar drywydd materion o'r logiau cynulleidfaoedd yn uniongyrchol â rheolwyr y BBC. Mae rheolwyr y BBC yn ymuno â chyfarfodydd y Cyngor ar gyfer rhannau perthnasol yn unig, fel bod y Cyngor Cynulleidfa, yn wahanol i'r Cyngor Darlledu a'i ragflaenodd, yn cyfarfod am rywfaint o'i amser heb bresenoldeb rheolwyr y BBC.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth ar berfformiad y BBC yng Nghymru ar sail ei weithgareddau allymestyn ac ymchwil i gynulleidfaoedd. Mae'n argymell blaenoriaethau cynulleidfaoedd yng Nghymru am newidiadau neu welliannau i wasanaethau'r BBC i'r Ymddiriedolaeth yn ogystal. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y blaenoriaethau hyn, a lle bo'n briodol, mae'n gofyn i reolwyr y BBC ddod â chynlluniau yn eu blaen i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r materion y mae Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi mynd ar eu trywydd yn fwyaf egnïol ers iddo gael ei sefydlu yn cynnwys y modd yr adlewyrchir datganoli mewn newyddion a materion cyfoes y rhwydwaith, a'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu o ran cael mynediad i wasanaethau digidol radio a theledu'r BBC yng Nghymru. Yn fuan wedi iddi ddod i fodolaeth, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i fynd i'r afael â'r cyntaf o'r materion hyn drwy sefydlu'r adolygiad y cyfeirir ato uchod. Hefyd, cymeradwyodd yn brydlon gynigion rheolwyr y BBC ar gyfer Freesat, a fydd yn mynd i'r afael â llawer o'r materion yn ymwneud â derbyniad teledu a godwyd gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymateb i nifer o ymgynghoriadau'r Ymddiriedolaeth dros y cyfnod ers dechrau 2007, gan ddod â phryderon penodol cynulleidfaoedd Cymru i sylw'r Ymddiriedolaeth. Roedd yr ymgynghoriadau yr ymatebodd iddynt yn cynnwys hwnnw ar "iPlayer" y BBC a lansiwyd ar ddiwedd 2007, y gwasanaeth teledu lloeren digidol di-dâl (Freesat), a'r adolygiad o Drwydded Gwasanaeth "bbc.co.uk". Cafodd y cyflwyniadau hyn eu gwerthfawrogi'n fawr hefyd gan yr Ymddiriedolaeth, ac mae wedi gwneud ei phenderfyniadau yn fwy unol ag anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru, a rhai sydd, o ganlyniad, yn fwy cadarn.

### 4.7 Prawf Gwerth Cyhoeddus

Os yw'r Bwrdd Gweithredol eisiau gwneud newid sylweddol i drwydded gwasanaeth bresennol, neu lansio gwasanaeth newydd, mae'n rhaid iddo'n gyntaf ofyn caniatâd gan yr Ymddiriedolaeth. Ni fydd yr Ymddiriedolaeth yn caniatáu i'r cyfryw gynigion gwasanaeth fynd rhagddynt cyn cynnal prawf Gwerth Cyhoeddus.

Mae Profion Gwerth Cyhoeddus yn cyfrifo gwerth cyhoeddus newidiadau arfaethedig ac yn ei gymharu â'r effaith negyddol botensial y gallai'r newidiadau eu cael ar y farchnad ehangach. Dim ond os bydd y gwerth cyhoeddus sy'n cael ei greu yn gorbwyso'r effaith negyddol botensial y bydd yr Ymddiriedolaeth yn bwrw ymlaen. Lle mae Prawf Gwerth Cyhoeddus yn cael ei gynnal, mae'n bosibl na fydd y gwasanaeth newydd neu'r newid yn digwydd nes bod y broses honno wedi'i chwblhau.

### Cefndir

Dywed y Siarter yn glir y dylai'r BBC fod yn gallu newid ei wasanaethau cyhoeddus DU - er enghraifft, i ymateb i newidiadau mewn technoleg, diwylliant, amodau'r farchnad, disgwyliadau'r cyhoedd ac ati. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gynigion sylweddol am newid gan reolwyr y BBC fod yn destun archwiliad llawn a chyhoeddus. Y Prawf Gwerth Cyhoeddus yw'r dull a ddefnyddir i wneud yr archwiliad.

Mecanwaith i bwyso gwerth cyhoeddus yn erbyn yr effaith ar y farchnad yw'r Prawf Gwerth Cyhoeddus. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ei ddefnyddio i bennu gwerth, dyweder gwasanaeth BBC newydd arfaethedig, i'r cyhoedd, a hefyd i gyfrifo ei effaith ar y farchnad ehangach - dyweder, i gyflenwyr eraill y gall lansiad arfaethedig y BBC effeithio ar eu busnes. Dim ond os bydd yr Ymddiriedolaeth yn fodlon y bydd gwerth cyhoeddus tebygol y newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol debygol ar y farchnad, y bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen i ymgynghori yn ei gylch. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn gwneud ei phenderfyniad.

### Sut mae'r Prawf Gwerth Cyhoeddus yn gweithio

Mae dwy elfen i Brawf Gwerth Cyhoeddus: asesiad gwerth cyhoeddus, ac asesiad o'r effaith ar y farchnad.

Mae asesiad gwerth cyhoeddus o newid arfaethedig yn cynnwys asesiad o:

Ei werth i dalwyr ffi'r drwydded fel unigolion

Ei werth i gymdeithas gyfan drwy ei gyfraniad at Ddibenion Cyhoeddus y BBC

Ei werth am arian a'r gost

Mae asesiadau gwerth cyhoeddus yn cael eu cynnal gan yr Ymddiriedolaeth, gyda chymorth gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sef yr uned annibynnol sy'n cynghori Ymddiriedolwyr. Fel rhan o'r asesiad, mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn am sylwadau ar yr agweddau gwerth cyhoeddus ar y cynnig.

Darperir asesiadau o effaith ar y farchnad gan Ofcom, ac fe'u goruchwylir gan Grŵp Llywio ar y Cyd y mae gan Ymddiriedolaeth y BBC ac Ofcom gynrychiolaeth gyfartal arno. Y Grŵp Llywio ar y Cyd sy'n pennu'r cylch gorchwyl ac yn cytuno'r fethodoleg ar gyfer pob asesiad, gan ystyried graddfa a chwmpas y newid arfaethedig. Fel rhan o'r asesiad, mae Ofcom yn gofyn am sylwadau ar agweddau effaith ar y farchnad ar y cynnig.

### Amserlen

Fel arfer, rhaid cwblhau Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn pen chwe mis o Ymddiriedolaeth y BBC yn penderfynu y dylid ei gymhwyso a chyhoeddi hysbysiad i'r perwyl hwnnw. Gall yr Ymddiriedolaeth ganiatáu cyfnod hwy os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny. Rhaid cwblhau asesiadau o effaith ar y farchnad cyn pen tri mis i'r grŵp llywio ar y cyd yn pennu'r cylch gorchwyl. Gall y Grŵp Llywio ar y Cyd ganiatáu cyfnod hwy os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.

### 4.8 Uned yr Ymddiriedolaeth

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cael cymorth gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n darparu cyngor annibynnol a gwrthrychol i Ymddiriedolwyr, gan alw ar arbenigwyr o'r tu allan lle bo angen. Er mwyn sicrhau annibyniaeth Uned yr Ymddiriedolaeth, mae ei staff ar wahân yn weinyddol i weddill y BBC, ac i Ymddiriedolaeth y BBC yn unig y mae'n gyfrifol. Y Cyfarwyddwr, Nicholas Kroll, sy'n arwain Uned yr Ymddiriedolaeth.

### Rôl a strwythur

Mae'r uned yn cynghori Ymddiriedolwyr y BBC ar gynnal eu dyletswyddau ac mae'n cefnogi'u gwaith mewn meysydd allweddol:

Y tîm Cyllid, Economeg a Strategaeth sy'n arwain ar Brofion Gwerth Cyhoeddus, ac mae'n cynghori'r Ymddiriedolaeth ar holl faterion strategaeth busnes, polisi, effaith gystadleuol, materion rheoleiddio a masnachu teg. Mae'r tîm hefyd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar yr holl faterion ariannol, gan gynnwys gwerth am arian, ac mae felly yn gartref proffesiynolion ariannol Uned yr Ymddiriedolaeth yn ogystal ag economegydd, a phobl ag amrywiaeth o gefndiroedd mewn polisi a strategaeth.

Mae'r tîm Perfformiad yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar berfformiad y BBC wrth gyflawni gwerth cyhoeddus. Mae'n rheoli'r Trwyddedau Gwasanaeth a Chylchoedd Gwaith Diben sy'n pennu telerau gweithredu'r BBC a'r modd y caiff ei berfformiad ei fesur. Mae'r tîm yn cynnwys pobl â chefndiroedd mewn ymgynghori strategol, datblygu polisi a dadansoddi perfformiad.

Mae'r tîm Cynulleidfa, sy'n cynnwys ymchwilwyr a dadansoddwyr defnyddwyr profiadol, yn gyfrifol am sicrhau yr hysbysir yr Ymddiriedolaeth yn briodol am farn cynulleidfaoedd am y BBC. Mae'r Tîm hefyd yn trefnu holl weithgarwch yr Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau o amgylch y DU, gan sicrhau bod atebolrwydd i dalwyr ffi'r drwydded yn nodwedd gyson ar galendr busnes yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r tîm Golygyddol yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar ei chyfrifoldebau dros safonau cynnwys, yn enwedig y meysydd hynny lle'r Ymddiriedolaeth yw'r awdurdod olaf o ran cydymffurfiad y BBC: amhleidioldeb a chywirdeb. Mae hyn yn cynnwys pwyllgor cwynion golygyddol yr Ymddiriedolaeth a'r adolygiadau rheolaidd o amhleidioldeb y BBC.

Mae'r Ysgrifenyddiaeth a Llywodraethu yn darparu cyngor a chymorth gweinyddol, proffesiynol i Ymddiriedolaeth y BBC, gan sicrhau bod gan yr Ymddiriedolwyr y cyfarpar priodol i ymgymryd â busnes y Bwrdd ac is-bwyllgorau, a'u bod yn gweithredu yn unol â disgwyliadau uchaf llywodraethu corfforaethol.

Mae'r tîm Cyfathrebu yn ceisio sicrhau dealltwriaeth briodol o waith Ymddiriedolaeth y BBC drwy'r cyfryngau, gwefan yr Ymddiriedolaeth ac mewn fforymau cyhoeddus.

Mae Llywodraethu ac Atebolrwydd Cenhedloedd yn darparu cymorth a chyngor i'r Ymddiriedolwyr Cenedlaethol a'r Cynghorau Cynulleidfa ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU, ac maent yn gweithio yn Birmingham, Glasgow, Caerdydd a Belffast. Mae'r tîm o dri yng Nghaerdydd o dan Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru yn darparu'r cyswllt cyson rhwng Uned yr Ymddiriedolaeth a gweithgaredd cyfredol Cyngor Cynulleidfa Cymru o geisio deall barn y cyhoedd yng Nghymru am wasanaethau'r BBC y maent yn eu cael yn gyfnewid am ffi'r drwydded.

## 4.9 Ein datganiad o ddiben

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i'r cyhoedd sy'n berchen ac yn talu am y BBC. Gwrandawn ar amrywiaeth eang o leisiau, gan geisio deall pob barn a disgwyliad er mwyn llywio ein barnau. Sicrhawn fod y BBC yn annibynnol, yn arloesol ac yn effeithlon: yn rym creadigol ac economaidd er lles yn y DU, ac i'r DU yn rhyngwladol.

Yr Ymddiriedolaeth yw corff pennaf y BBC, gyda'i Ymddiriedolwyr annibynnol yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Ein nod yw sicrhau

bod y BBC yn aros yn annibynnol, gan wrthod pwysau a dylanwad o unrhyw ffynhonnell

bod rheolwyr y BBC yn darparu gwerth cyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau nodedig o'r ansawdd uchaf i holl bobl a chymunedau'r DU

bod y BBC yn cyfrannu at enw da'r Deyrnas Unedig yn y byd, at yr economi ac at ddiwylliant Prydain

Ein tasgau yw gwneud yn siŵr:

bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth i hysbysu, addysgu a difyrru a hynny gydag uchelgais, a'i fod yn cyflawni'r dibenion cyhoeddus a bennwyd yn y Siarter Frenhinol

bod gan reolwyr y BBC flaenoriaethau clir a'i fod yn defnyddio'i adnoddau'n effeithiol, gan ddarparu ansawdd, gwerth am arian ac effeithlonrwydd a'i fod yn cyrraedd pob cynulleidfa

bod y BBC yn aros ar flaen y gad o ran datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, gan annog dewis ac arloesedd yn y farchnad gyfryngol heb fygu menter neu fusnes preifat

bod newyddiaduraeth y BBC yn bodloni'r safonau uchaf o gywirdeb ac amhleidioldeb i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd

bod y BBC yn hyrwyddo'i enw da a'i werthoedd o gwmpas y byd

Byddwn yn cyflawni hyn drwy

wrando ar y cyhoedd a gwahodd eu barnau yn eu holl amrywiaeth

gwerthfawrogi proffesiynoldeb, arloesedd a chreadigrwydd staff y BBC a phawb sy'n cyfrannu at y BBC

amddiffyn yn gadarn annibyniaeth y BBC

gwneud dyfarniadau a fydd yn gwarchod ansawdd uchel y BBC, cyrhaeddiad o ran cynulleidfa ac annibyniaeth dros yr hirdymor

gwneud yn siŵr bod ein prosesau yn agored a thryloyw

dwyn rheolwyr y BBC i gyfrif yn gadarn

**Uned Ymddiriedolaeth y BBC**

**Mehefin 2008**